Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Medr/2026/44: Atodiad B

# Canllaw ar y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru

## Rhaglen Brentisiaethau Graidd

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Canllaw ar Raglen Brentisiaethau 2027

## Fframweithiau sy'n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig ar lefelau 2-5, gan gynnwys Rhannu Prentisiaethau

## Cynnwys

Fframweithiau sy'n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig ar lefelau 2-5, gan gynnwys Rhannu Prentisiaethau ........ 2

1. Cyflwyniad ........ 3
2. Y Rhaglen Brentisiaethau ........ 5
3. Rolau a Chyfrifoldebau ........ 9
4. Agweddau allweddol y rhaglen ........ 11
5. Rhannu Prentisiaethau ........ 15
6. Cyllid a thaliadau – darpariaeth graidd ........ 17
7. Rheoli dysgwyr ........ 20
8. Cymorth i ddysgwyr ........ 27
9. Gofynion data a systemau ........ 30

Atodiad 1 - Pwysoliadau Fframwaith Sector Prentisiaethau yn eu trefn ........ 32

# 1. Cyflwyniad

1.1 Un o Nodau Strategol Medr yw 'creu system drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas newidiol'. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu prentisiaethau sy'n ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau ac sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi. Mae hyn wedi'i seilio ar ein dyletswydd strategol i gyfrannu at ddatblygu economi gynaliadwy ac arloesol yng Nghymru.

1.2 Mae'r Rhaglen Brentisiaethau newydd yn dechrau ar 1 Awst 2027 ac fe'i cyllidir drwy drefniadau grant â derbynwyr (a elwir yn "ddarparwyr" yn holl gyfres Medr o ddogfennau) a nodir drwy broses ymgeisio ac asesu. Mae'r dull newydd hwn yn gyson â threfniadau buddsoddi Medr ar gyfer yr holl ddarpariaeth drydyddol arall, gan gefnogi ein nod am sector sy'n fwy cydgysylltiedig a chydlynol.

1.3 Mae'r canllaw hwn i'r rhaglen yn amlinellu nodau ac amcanion y rhaglen ond hefyd yn galluogi darparwyr i benderfynu sut orau i gyflwyno'r rhaglen er mwyn bodloni anghenion dysgwyr. Drwy ddyluniad y rhaglen, a'i gweithrediad drwy fodel cyllid grant, bwriedir taro cydbwysedd rhwng sefydlogrwydd a hyblygrwydd, gan alluogi'r rhaglen i ymateb i flaenoriaethau newidiol a sicrhau parhad ar yr un pryd i ddysgwyr a chyflogwyr.

### Dull dyfarnu grantiau

1.4 Ceir tair elfen o fewn y Rhaglen Brentisiaethau y dyfernir grantiau ar eu cyfer:
- Rhaglen Brentisiaethau, gan gynnwys Rhannu Prentisiaethau (cyflwyno fframweithiau sy'n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig ar lefelau 2-5)
- Prentisiaethau gradd (cyflwyno fframweithiau sy'n arwain at raddau ar lefel 6 a ddyfernir gan brifysgolion)
- Prentisiaethau â chymorth (pob lefel)

1.5 Bydd y grantiau cychwynnol yn cael eu dyfarnu am gyfnod o bedair blynedd. Gellir gwneud mân newidiadau i ganllawiau'r rhaglen yn ystod y pedair blynedd cyntaf er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol. Os bydd darparwyr yn parhau i fodloni amodau grant y rhaglen ac yn parhau i gydymffurfio â gofynion fframwaith rheoleiddio Medr, byddant yn parhau i dderbyn buddsoddiad yn dilyn y dyfarniad cychwynnol.

1.6 Cynhelir adolygiad ffurfiol o'r rhaglen ar ôl pedair blynedd a allai arwain at newidiadau mwy sylweddol; bydd hefyd yn gyfle i ddarparwyr pellach dderbyn cyllid grant o dan y rhaglen, os ydynt yn bodloni amodau'r rhaglen ac os oes cyllideb ar gael.

1.7 **Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth a chanllawiau i ddarparwyr dysgu sy'n derbyn cyllid grant i gyflwyno'r Rhaglen Brentisiaethau (Lefelau 2 i 5) gan gynnwys yr elfen Rhannu Prentisiaethau.** Dylid ei darllen ochr yn ochr â dogfennau'r Cais am Grant, a Fframwaith rheoleiddio Medr ar gyfer darparwyr trydyddol a'r amodau grant a chyllid.

1.8 Ceir dogfennau canllaw ar wahân ar gyfer yr elfennau Prentisiaethau Gradd a Phrentisiaethau â Chymorth.

**Rhaglen Brentisiaethau (cymwysterau rheoleiddiedig ar lefelau 2-5)**

1.9 Mae Medr yn annog trefniadau cydweithredol, gan gynnwys modelau consortiwm neu sefydliad partner, gan gynnwys modelau is-gontractio ar gyfer darparwyr sy'n gwneud cais i gyflwyno'r elfen hon, gan adeiladu ar y model cyflwyno presennol. Bydd hyn yn sicrhau bod dyfarniadau grant ar raddfa ddigonol i gwmpasu pob sector a rhanbarth yng Nghymru ac yn cefnogi darpariaeth o safon.

1.10 Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer dyfarniad grant o dan yr elfen hon, rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt y gallu, naill ai'n unigol neu drwy drefniadau cydweithredol priodol, i reoli cyllid grant ar raddfa ddigonol i gefnogi amcanion y rhaglen. I ddibenion cynllunio a sicrwydd, mae Medr yn disgwyl i ymgeiswyr allu dangos y capasiti i reoli grant gwerth hyd at £5m y flwyddyn, gan gynnwys dechreuwyr newydd a dysgwyr sy'n parhau. Meincnod gallu yw hwn ac nid yw'n gwarantu dyraniad o'r swm hwnnw. Bydd dyraniadau grant blynyddol gwirioneddol yn cael eu pennu'n unol â'r fethodoleg ddyrannu fel yr amlinellir ym mharagraffau 6.10 – 6.12, a gallent fod yn llai na £5m. Ar gyfer darparwyr newydd heb ddysgwyr sy'n parhau, mae Medr yn rhagweld mai gwerth y grant lleiaf yn y flwyddyn gyntaf fydd £1.5m, yn dibynnu ar y fethodoleg dyrannu, amodau'r rhaglen a'r gyllideb sydd ar gael.

## 2. Y Rhaglen Brentisiaethau

2.1 *“Swydd gyflogedig gyda hyfforddiant yw prentisiaeth Gymreig. Bydd prentisiaid yn ennill cyflog, yn ennill profiad, yn dysgu sgiliau newydd, ac yn ennill cymwysterau a chymwyseddau a gydnabyddir gan y diwydiant (o lefel 2 hyd at lefel gradd). Diffinnir yr hyn sydd i'w ddysgu drwy Fframwaith Prentisiaeth."*

2.2 Cyflwynir prentisiaeth fel partneriaeth rhwng y darparydd dysgu, y cyflogwr, a'r dysgwr.

2.3 Ein gweledigaeth yw Rhaglen Brentisiaethau sy'n:

- Cynnwys pob dysgwr
- Ehangu cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn eu prentisiaeth yn gyfan gwbl, neu'n rhannol, yn y Gymraeg.
- Hyblyg ac yn ystwyth, gyda disgwyliadau clir o ran deilliannau yn hytrach na phrosesau caeth, gan alluogi darparwyr i arloesi a sicrhau canlyniadau gwell drwy atebolrwydd ystyrlon
- Cyflwyno darpariaeth o safon a deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr a chyflogwyr
- Bodloni anghenion yr economi ac yn cefnogi newid yn y galw am sgiliau
- Hyrwyddo ymgysylltiad a chyfranogiad cryf ymhlith dysgwyr
- Cynnig llwybrau cydlynol a llwybrau dilyniant ar draws y sector trydyddol, gan alluogi dysgwyr i ddilyn llwybr sy'n gweithio iddyn nhw
- Sicrhau cydraddoldeb o ran parch rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd, gan gefnogi system addysg a hyfforddiant trydyddol cwbl integredig.

### Egwyddorion lefel uchel

2.4 Mae'r egwyddorion lefel uchel canlynol yn tanategu'r Rhaglen Brentisiaethau:

- Darparu rhaglen i bob oed ar gyfer dysgwyr 16 oed a hŷn
- Darparu prentisiaethau o safon o Lefel 2 i Lefel 6
- Ymateb i newidiadau i'r galw am sgiliau ar draws yr economi ac i anghenion rhanbarthol o ran sgiliau
- Ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau, gan gynnwys ymateb i egin-dechnolegau a sgiliau gwyrdd
- Bodloni anghenion dysgwyr a chefnogi eu dilyniant drwy'r system addysg drydyddol ac i mewn i'w gyrfaoedd ddewisol, a thrwy gydol y gyrfaoedd hynny
- Hyblyg ac ymatebol, gan sicrhau bod y cymwysterau a'r sgiliau cywir yn cael eu darparu i fodloni anghenion cyflogwyr, dysgwyr a'r economi
- Yn darparu prentisiaethau cynhwysol sy'n hygyrch i ddysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig ac sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Yn cynyddu cyfleoedd i bob prentis ddatblygu, cynnal a defnyddio eu sgiliau Cymraeg drwy gydol eu hyfforddiant a'u cyflogaeth, gan eu galluogi i gyfrannu at weithlu sy'n gynyddol ddwyieithog
- Cynnig darpariaeth o safon sy'n cryfhau cyrhaeddiad dysgwyr ac yn gwella deilliannau.

## Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

2.5 Yn sgil cychwyn y darpariaethau prentisiaeth yn Rhan 4 ac Adran 104 (cymorth ariannol ar gyfer prentisiaethau) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) bydd swyddogaethau perthnasol yn cael eu trosglwyddo i Medr ym mis Awst 2027.

2.6 Mae Gweinidogion Cymru yn datblygu Manyleb newydd o Ofynion ar gyfer Prentisiaethau Cymeradwy Cymru o dan adran 115 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Bydd y Gofynion yn disodli Manyleb Safonau Prentisiaeth Cymru (MSPC) ac yn weithredol o 1 Awst 2027.

2.7 Cyn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch polisi, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Gofynion newydd yn nhymor yr hydref 2026. Bydd y Gofynion yn sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl wrth gyflwyno'r prentisiaethau o fewn fframwaith statudol clir. Byddant yn nodi'r hyn sydd angen ei gynnwys mewn Fframwaith Prentisiaeth er mwyn i ddysgwyr ddilyn y llwybr dysgu a chael cymeradwyaeth am gwblhau prentisiaeth Cymru i ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf.

2.8 Mae dyluniad Rhaglen Brentisiaethau Newydd Medr yn adlewyrchu'r hyblygrwydd ychwanegol a ddisgwylir yn ôl y Gofynion newydd.

## Fframweithiau Prentisiaeth

2.9 Mae Fframwaith Prentisiaeth yn nodi'r rhaglen ddysgu a'r cymwysterau sydd eu hangen i gwblhau prentisiaeth yng Nghymru. Mae pob llwybr o fewn fframwaith yn cynnwys:

- Cymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth neu gymhwyster cyfun
- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (lle bo angen) mewn:
  - Cyfathrebu
  - Cymhwyso Rhif
  - Llythrennedd digidol (dewisol)
- Hyfforddiant yn y gwaith / i ffwrdd o'r gwaith
- Gofynion cymhwysedd/safonau eraill y diwydiant

2.10 O fis Awst 2027 ymlaen, bydd 18 fframwaith sector ar gael ledled Cymru:

- Iechyd, cymdeithasol, a gofal plant
- Peirianneg
- Gweithgynhyrchu
- Creadigol, dylunio a'r cyfryngau
- Gwasanaethau rheoli, busnes a manwerthu
- Gwasanaethau cyhoeddus a diogelu
- Addysg a'r blynyddoedd cynnar
- Arlwyo a lletygarwch
- Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- Y Gyfraith, Cyllid a Chyfrifyddu
- Digidol
- Gwallt a harddwch
- Amaethyddiaeth, yr amgylchedd a gofal anifeiliaid
- Trafnidiaeth, moduro a logisteg
- Gwyddoniaeth ac ynni

- Bwyd a diod
- Gwasanaethau eiddo
- Chwaraeon a Hamdden

2.11 Gall darparwyr wneud cais ffurfiol i ddiwygio llwybrau/fframweithiau neu gynnig datblygu llwybrau newydd yn y llyfrgell Fframweithiau Prentisiaeth. Bydd y swyddogaeth hon ar gael ar y wefan ar 1 Awst 2027. Cyhoeddir canllawiau ar wahân ar y llyfrgell newydd a'r systemau ardystio cyn dechrau'r rhaglen.

## Blaenoriaethau sector ac anghenion rhanbarthol

2.12 Rhaid i'r rhaglen allu ymateb i flaenoriaethau economaidd rhanbarthol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau, a'u bodloni, gan gynnwys ymateb i dechnolegau sy'n newid a'r angen am sgiliau gwyrdd. Mae'r rhaglen yn cydnabod bod anghenion o ran sgiliau yn esblygu'n barhaus. Mae egin-dechnolegau, newid demograffig, trawsnewid economaidd, datgarboneiddio, a'r newid yn y galw ymhlith cyflogwyr oll yn mynnu system brentisiaethau a all addasu dros amser. Bydd blaenoriaethau o ran sectorau'n cael eu cadarnhau'n flynyddol.

2.13 Rhaid i ddarparwyr allu dangos y byddant yn defnyddio'r cyllid grant i gyflwyno'r ddarpariaeth ar draws ystod o feysydd sector allweddol, a'u bod yn gallu ymateb i flaenoriaethau sy'n newid. Ni ddylai mwy na 50% o'r gweithgarwch a gyllidir gan y darparydd fod o fewn un sector. Er mwyn osgoi amheuaeth, gall nifer o sefydliadau gyfrannu at y 50% hwn fel rhan o gonsortiwm o fodel partneriaeth (gan gynnwys modelau isgontractio). Bydd angen i ddarparwyr fonitro anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ran sgiliau, a gwybodaeth am y farchnad lafur, a defnyddio'r dystiolaeth hon i gynllunio'r ddarpariaeth sydd ganddynt a gyllidir yn y dyfodol.

2.14 Fel arfer, bydd y ddarpariaeth wedi'i chynllunio ar sail ranbarthol, er mwyn sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael sylw gan osgoi dyblygu a gorgyffwrdd.

## Fframwaith rheoleiddio Medr

2.15 Bydd yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cyflwyno'r gweithgarwch a gyllidir ar gyfer y Rhaglen Brentisiaethau gydymffurfio â fframwaith rheoleiddio ac amodau cyllido Medr. Bydd Medr yn defnyddio ei broses sicrhau risg darparwyr i fonitro cydymffurfiaeth, a ddatblygir ac a weithredir yn ystod 2026/27.

2.16 Ceir manylion pellach am ofynion y fframwaith rheoleiddio ar wefan Medr.

| Amod: |
|---|
| Cynaliadwyedd Ariannol (Cychwynnol a pharhaus) |
| Llywodraethu a Rheoli (Cychwynnol a pharhaus) |
| Ansawdd a Gwelliant Parhaus (Cychwynnol a pharhaus) |
| Llesiant Staff a Dysgwyr (Cychwynnol a pharhaus) |
| Y Gymraeg (Parhaus) |
| Diogelu Dysgwyr (Parhaus) |

| |
|---|
| Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (Parhaus) |
| Cyfle Cyfartal (Parhaus) |
| Gweithdrefnau Cwyno (Parhaus) |
| Sylw i Gyngor a Chanllawiau (Parhaus) |
| Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad (Parhaus) |

**Ymgysylltu a monitro**

2.17 Yn ogystal â gofynion adrodd fframwaith rheoleiddio Medr, bydd yn ofynnol i ddarparwyr ymgysylltu'n rheolaidd â Medr, fel y gall Medr fonitro'r defnydd o gyllid grant a'r gweithgarwch a gyflawnir yn sgil y cyllid yn erbyn nodau'r rhaglen, gan gynnwys:

- Y galw am y rhaglen a'r nifer sy'n ei dilyn, gan gynnwys ymhlith unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd, a rhai a chanddynt nodweddion gwarchodedig ac sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Patrymau cyflwyno mewn meysydd sector â blaenoriaeth, a chysondeb â'r sgiliau sydd eu hangen yn rhanbarthol.
- Ymgysylltu â chyflogwyr, gan gynnwys effeithiolrwydd cynyddu nifer ac amrywiaeth y cyflogwyr sy'n recriwtio prentisiaid.
- Ansawdd profiad y dysgwr a deilliannau'r dysgwr.
- Y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd cyfrwng Cymraeg.

2.18 Bydd y mewnwelediadau a geir o'r gwaith monitro hwn yn cael eu defnyddio er mwyn helpu darparwyr i wella eu perfformiad unigol yn erbyn y disgwyliadau yng nghanllawiau'r rhaglen. Fe'u defnyddir hefyd i nodi meysydd lle gellid bod angen gwneud newidiadau i'r rhaglen yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys gweithgarwch datblygu ychwanegol a arweinir gan Medr.

## 3. Rolau a Chyfrifoldebau

### 3.1 Y Darparydd

- Cynnal cydymffurfiaeth ag amodau cyllido Medr, a gofynion eraill yn fframwaith rheoleiddio Medr.
- Sicrhau bod pob prentis yn cydymffurfio â gofynion cymhwystra'r rhaglen brentisiaethau.
- Cyflwyno darpariaeth o safon, fel y caiff ei gwerthuso yn arolygiadau Estyn/adolygiadau QAA (fel bo'n briodol).
- Helpu cyflogwyr i ddeall y buddsoddiad sy'n ofynnol ganddynt wrth gyflogi prentis, gan gynnwys adnoddau, yr ymrwymiad o ran amser, a'r gofynion drwy gydol y cyfnod dysgu.
- Cynorthwyo cyflogwyr i recriwtio'r prentis.
- Darparu gwybodaeth i'r cyflogwr a'r dysgwr am strwythur y brentisiaeth, a diffiniad clir o rolau a chyfrifoldebau rhwng y darparydd, y cyflogwr a'r dysgwr.
- Cynnal asesiad cychwynnol o'r dysgwr, fel y nodir ym mharagraffau 4.3 - 4.4.
- Cwblhau cwrs sefydlu effeithiol i'r prentis, gan gynnwys cwblhau cytundeb dysgu prentisiaeth.
- Cwblhau sesiwn sefydlu effeithiol i gyflogwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cael gwybod am oblygiadau'r rhwymedigaethau hyn.
- Cynnal adolygiadau dysgu rheolaidd, gan gynnwys cynnydd dysgwyr, yr hyn maen nhw wedi'i gyflawni hyd yma, y dysgu pellach sydd ei angen, gan gynnwys parodrwydd am asesiadau a pha mor agos ydyn nhw at gwblhau, er mwyn helpu cyflogwyr a dysgwyr i gynllunio'n fwy effeithiol.
- Sicrhau y cydymffurfir â gofynion y fframwaith wrth gyflwyno pob agwedd ar y ddarpariaeth a gyllidir.
- Ehangu eu rhwydwaith o gyflogwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig yn arbennig.
- Rhoi arweiniad a chyngor parhaus i'r cyflogwr/prentis hyd ddiwedd y brentisiaeth, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r naill a'r llall am gynnydd, a'u cynnwys yn llawn yn narpariaeth y rhaglen.
- Mentora a rhoi arweiniad a chefnogaeth i gyflogwyr yn ystod prosesau recriwtio, cyflwyno a deilliannau er mwyn sicrhau profiad o safon i'r dysgwr sy'n arwain at ddeilliannau llwyddiannus a chyflogaeth neu hunangyflogaeth barhaus.
- Darparu prosesau asesu, cyflwyno a chefnogi effeithiol i ddysgwyr er mwyn galluogi deilliannau llwyddiannus, nid yn unig o ran ennill cymhwyster ond hefyd o ran datblygiad gyrfa a llesiant y dysgwr.
- Sicrhau bod ganddynt systemau a phrosesau cadarn ar waith i gefnogi a dangos tystiolaeth o gydymffurfio â holl ofynion y rhaglen yn unol â'r fanyleb.
- Sicrhau bod eu darpariaeth yn gynhwysol ac yn hygyrch i ddysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, ac i rai â nodweddion gwarchodedig, a sicrhau eu bod yn annog staff a dysgwyr yn weithredol i gymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau a mentrau sydd ar gael i gynyddu nifer y dysgwyr, cyfranogiad a llwyddiant.
- Cynyddu nifer y bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n dechrau ac yn cwblhau prentisiaethau, yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac adolygiad Cyflogaeth a Sgiliau 2024.

- Cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb i ddeall effaith prosesau a pholisïau ar bawb sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Hyrwyddo a dathlu'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Creu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i hannog yn weithredol ar draws gweithgareddau'r darparydd hyfforddiant, fel y gall prentisiaid a staff ddatblygu, cynnal, a defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y dysgu ac yn y gwaith o ddydd i ddydd.
- Mynd ati'n weithredol i hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth cyfrwng Cymraeg sy'n gynhwysol ac yn hygyrch, ac annog staff a dysgwyr i gymryd rhan mewn cynlluniau a mentrau perthnasol sy'n helpu i gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, hyfforddiant ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhoi'r cyfryw wybodaeth, cymorth a mynediad i Medr, neu i unigolyn a awdurdodir gan Medr, at gyfleusterau, systemau ac offer y darparydd, fel y bo'n rhesymol ofynnol er mwyn i Medr gyflawni ei swyddogaethau.
- (Rhannu Prentisiaethau yn Unig) Cyfrifoldeb y sefydliad/cyflogwr arweiniol yw talu cyflog y prentisiaid ac adennill cyflogau gan y cyflogwyr cynnal.

## 3.2 Y Cyflogwr

- Cyflogi ac, o leiaf, talu'r prentis yn unol â gofynion yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol – ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.
- Sicrhau bod y prentis yn cael amser i dderbyn hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith fel bo'n briodol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith mewnfudo'r DU o ran hawl pob prentis i fyw a gweithio yn y DU, a chadw cofnodion o'r gwiriadau.
- Cyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol dros Iechyd a Diogelwch y prentis.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ac arfer da o ran cyfle cyfartal.
- Sicrhau bod digon o amser ac adnoddau'n cael eu darparu er mwyn i'r prentis fodloni eu gofynion dysgu ac asesu - gan gynnwys sicrhau bod y prentis yn mynd i'r gwaith ac yn derbyn hyfforddiant am isafswm o un awr ar bymtheg (16) yr wythnos.
- Cefnogi a chyfrannu'n weithredol at ddysgu'r prentis ac at gyflwyno'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Sicrhau bod gan y dysgwr fynediad at fentor priodol a enwebir o fewn y sefydliad a fydd yn gweithredu fel y pwynt cyswllt enwebedig yn ystod y rhaglen.
- Cyfrannu'n weithredol at ddatblygiad parhaus Pecyn Cymorth Cyflogwyr Rhaglen Brentisiaethau Medr a'i hyrwyddo.
- Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i gyflawni eu rhwymedigaeth i gymryd pob cam rhesymol i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg, a chynyddu'r galw am hyfforddiant ac asesiadau cyfrwng Cymraeg, a chyfranogiad yn hynny, os ydynt ar gael, fel y gall prentisiaid ddatblygu, cynnal a defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth ymarfer.
- Cefnogi datblygiad gyrfa'r dysgwr, a lle ystyrir bod hunangyflogaeth yn opsiwn rhesymol, cefnogi'r broses o bontio i hunangyflogaeth.

### 3.3 Y Dysgwr

- Ymroi i ddysgu a chael eu hasesu drwy fynd ar gyrsiau ac i ddigwyddiadau dysgu eraill yn y gwaith neu i ffwrdd o'r gwaith, bod yn barod i'w hasesu, a chymryd rhan yn weithredol yn y gwaith o gynllunio ac adolygu eu rhaglen.
- Cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a'u datblygiad eu hunain.
- Ymddwyn mewn modd ystyriol a chyfrifol, gan roi sylw priodol i sicrhau cyfle cyfartal iddyn nhw'u hunain ac i eraill, ac i iechyd a diogelwch eraill ac i'w hiechyd a'u diogelwch eu hunain yn yr amgylchedd gwaith a dysgu.
- Gweithio i'r cyflogwr hyd eithaf eu gallu ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r cyflogwr.
- Ymgysylltu’n gadarnhaol â chyfleoedd, lle bônt ar gael, i ddatblygu, cynnal a defnyddio eu sgiliau Cymraeg fel rhan o’u hyfforddiant a’u cyflogaeth, gan gydnabod y manteision a ddaw yn sgil hyn i weithlu cynyddol ddwyieithog yng Nghymru.

## 4. Agweddau allweddol y rhaglen

### Cytundeb Prentisiaeth Cymru

4.1 Rhaid i ddysgwr gael Cytundeb Prentisiaeth Cymru sy'n nodi mewn ysgrifen ei delerau ac amodau dysgu gyda'r darparydd a'r cyflogwr cyn, neu ar yr adeg pan fydd y dysgwr yn dechrau'r Fframwaith Prentisiaeth.

4.2 Rhaid hysbysu'r dysgwr cyn gwneud unrhyw newidiadau i Gytundeb Prentisiaeth Cymru, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

### Sefydlu ac asesu'r dysgu

4.3 Bydd yn ofynnol i ddarparwyr weithio gyda'r dysgwr a'r cyflogwr i gynnal a chofnodi proses sefydlu ac asesu gadarn ar gyfer pob dysgwr a chreu Cynllun Dysgu Unigol, wedi'i deilwra i fodloni anghenion yr unigolyn a'r cyflogwr. Dylai’r asesiad hwn fod ar gael yn newis iaith y dysgwr, sef naill ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg.

4.4 Er y gall darparwyr ddyfeisio eu proses asesu a'u dogfennau eu hunain, rhaid i hyn gynnwys ystyriaeth o'r canlynol:

- Prosesau asesu, cyflwyno a chefnogi effeithiol i alluogi deilliannau llwyddiannus, nid yn unig o ran ennill y cymhwyster, ond hefyd o ran dilyniant gyrfa, gan gynnwys paratoi am hunangyflogaeth lle bo'n briodol.
- Nodi unrhyw rwystrau posibl i ddysgu a gofynion cymorth ychwanegol, gan gynnwys unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a nodweddion gwarchodedig.
- Dysgu blaenorol cydnabyddedig (DBC) perthnasol Ni ddylai hyn ond cynnwys cymwysterau ardystiedig llawn a enillwyd. Yn y dyfodol, yn dibynnu ar ddatblygiad systemau, efallai y bydd modd cydnabod modiwlau unigol. Bydd darparwyr yn cael gwybod os bydd hynny'n digwydd.
- Asesiad o sgiliau Cymraeg a chynllun ar gyfer sut y gellir cynnig cyfleoedd, yn y ddarpariaeth a'r dull cyflwyno, i ddatblygu, cynnal a defnyddio sgiliau'r dysgwr yn seiliedig ar yr asesiad hwnnw.

- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol neu gymwysterau amgen sydd wedi'u hennill, a chymwysterau sydd i'w cwblhau.
- Cymwysterau, fel y'u nodir yn y Fframwaith Prentisiaeth, sydd i'w cwblhau (rhaid i bob prentis gwblhau'r cymwysterau cymhwysedd. Rhaid cwblhau cymwysterau gwybodaeth lle nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys drwy ddysgu blaenorol cydnabyddedig).
- Hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith sydd i'w gwblhau.
- Unedau dewisol, cymwyseddau'r diwydiant/galwedigaethol, fel y'u hamlinellir yn y Fframwaith Prentisiaeth.
- Dyddiad dechrau'r dysgwr a hyd y rhaglen.
- Sgiliau gyrfa sydd i'w cyflwyno drwy gymwysterau a chyrsiau.
- Cymorth entrepreneuriaeth i ddysgwyr a allai fod yn dechrau hunangyflogaeth ar ddiwedd y brentisiaeth.
- Sgiliau cyflogadwyedd i'w datblygu.
- Llesiant dysgwyr gan gynnwys rhoi ystyriaeth i rwystrau unigol fel cyfrifoldebau gofalu a allai olygu bod angen mwy o gefnogaeth neu fwy o hyblygrwydd yn y ddarpariaeth.

### Hyd y rhaglen

4.5 Isafswm hyd Rhaglen Brentisiaeth i ddysgwr yw 12 mis. Mae'r isafswm hyd o 12 mis yn diogelu natur prentisiaeth Cymru fel rhaglen ddysgu sy'n datblygu cymhwysedd galwedigaethol. Efallai y ceir eithriadau i hyn yn y flwyddyn gyflwyno gyntaf, yn sgil dysgu blaenorol cydnabyddedig, neu lle gellid bod angen diwygio'r elfen gymhwysedd mewn Fframweithiau Prentisiaeth penodol. Darperir rhagor o wybodaeth am eithriadau maes o law.

4.6 Nid oes uchafswm amser penodol i ddysgwyr ar y Rhaglen Brentisiaethau. Bydd amcangyfrif yr amser cwblhau yn seiliedig ar ganlyniad asesiad y darparydd, a dylid dod i gytundeb ynghylch hynny rhwng y darparydd, y cyflogwr a'r dysgwr. Pan fydd dysgwyr yn cwblhau eu prentisiaeth mewn llai o amser nag a amcangyfrifwyd, bydd darparwyr yn derbyn y gwerth buddsoddi y cytunwyd arno ar gyfer y dysgwr hwnnw, gan y bydd yr holl elfennau a nodwyd fel rhai sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau wedi'u datblygu.

### Deilliannau Dysgwyr

4.7 Mae'n ofynnol i ddarparwyr ymdrechu i'r eithaf i sicrhau bod pob dysgwr yn cael swydd gynaliadwy ar ddiwedd eu Rhaglen Brentisiaethau (mae hyn yn cynnwys hunangyflogaeth). Mae lleoli'r prentis gyda chyflogwr nad yw, o'r cychwyn cyntaf, ond yn cynnig cyflogaeth dros dro hyd ddiwedd y brentisiaeth yn annhebygol o fod er budd pennaf y prentis. Ni fyddai trefniant o'r fath ond yn briodol os oes digon o dystiolaeth i ddangos y byddai'r prentis, ar ôl cymhwyso, yn gallu canfod cyflogaeth barhaus neu hunangyflogaeth sicr yn rhywle arall. Os ystyrir bod hunangyflogaeth yn opsiwn rhesymol, byddem yn disgwyl i ddarparwyr gefnogi eu dysgwyr wrth bontio i hunangyflogaeth.

4.8 Disgwylir i ddarparwyr fonitro ac adrodd wrth Medr ar nifer y dysgwyr sy'n cwblhau'r deilliannau canlynol:

- Cwblhau pob agwedd ar y Fframwaith Prentisiaeth perthnasol a'r ardystiad yn llwyddiannus.

- Cwblhau'r rhaglen yn amserol – diffinnir hyn fel cwblhau'r rhaglen o fewn y cyfnod targed a aseswyd.
- Mynediad i gyflogaeth barhaus cyn pen pedair wythnos ar ôl gadael.

4.9 Bydd Medr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gofnodi'r cynnydd a'r deilliannau a gyflawnwyd yn sgil y Rhaglen Brentisiaethau.

4.10 Yn unol â fframwaith rheoleiddio Medr, disgwylir i ddarparwyr hefyd ddangos deilliannau ar draws ystod ehangach o fesurau, gan gynnwys dilyniant dysgwyr i ddysgu pellach, profiadau dysgwyr, a chyfle cyfartal i ddysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd.

## Achredu ac ardystio

4.11 Er mwyn achredu ac ardystio cymwysterau, rhaid cyflwyno tystiolaeth i gorff dyfarnu, yn unol â'r systemau dilysu mewnol ac allanol perthnasol.

## Y Gymraeg

4.12 Rhaid i ddarparydd prentisiaethau sydd wedi cofrestru gyda Medr, neu a gyllidir gan Medr, gyhoeddi a chynnal Strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Dylai'r strategaeth hon nodi sut y bydd y darparydd yn cymryd pob cam rhesymol i:

- hybu ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y darparwr fel y gall pobl – gan gynnwys staff a dysgwyr – ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau beunyddiol;
- cynyddu'r galw am addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi.

4.13 I'w helpu i fodloni'r gofynion hyn, anogir darparwyr i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg), fel un o'r sefydliadau sy'n gyfrifol am gynllunio strategol mewn perthynas â'r Gymraeg mewn addysg drydyddol. Mae'r Coleg yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Medr, a darparwyr i gefnogi twf mewn cyfleoedd astudio a hyfforddi cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yng nghyd-destun prentisiaethau a'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol, bydd y Coleg yn cefnogi ac yn cynghori darparwyr wrth iddynt ddatblygu a gweithredu eu Strategaethau ar gyfer y Gymraeg, gan helpu i nodi ffyrdd ymarferol i gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, darpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cymorth mewn perthynas â'r gweithlu addysg drydyddol ac annog a chefnogi dysgwyr. Mae'r Coleg hefyd yn cefnogi Medr drwy roi cyngor strategol ar weithredu Amod y Gymraeg, gan gyfrannu at drafodaethau ar flaenoriaethau, a rhannu arfer da ar draws y sector i gefnogi gwelliant gwirioneddol mewn darpariaeth.

4.14 Bydd yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gynt) yn debygol o gynnig cyfleoedd perthnasol i gefnogi darparwyr wrth weithredu eu Strategaethau ar gyfer y Gymraeg. Yng nghyd-destun y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol, Strategaethau Iaith Gymraeg darparwyr, a'r gefnogaeth a'r gwaith cynllunio strategol a ddarperir gan y Coleg, bydd yr Athrofa yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg a hyder y gweithlu addysg drydyddol, gyda'r nod o adeiladu capasiti i ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

4.15 Bydd Medr yn monitro perfformiad darparwyr yn erbyn eu Strategaethau Iaith Gymraeg ac yn defnyddio ei brosesau rheoleiddio a rheoli grantiau sefydledig i sbarduno gwelliant parhaus ac i herio mewn meysydd lle nad oes digon o gynnydd.

## Cydraddoldeb

4.16 Wrth ddatblygu'r Rhaglen Brentisiaethau, mae Medr wedi cynnal Asesiad Effaith Integredig (AEI) i ystyried effeithiau tebygol y rhaglen ar ddysgwyr, cyflogwyr, darparwyr a chymunedau ledled Cymru, gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

4.17 Nodai'r asesiad y byddai'r Rhaglen yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyfle cyfartal ar y cyfan. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i gefnogi cyfranogiad cynhwysol, dileu rhwystrau i ddysgu a dilyniant, a gwella mynediad at brentisiaethau i bobl o gefndiroedd amrywiol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i ddysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, dysgwyr o gymunedau dan anfantais economaidd-gymdeithasol, y rhai â nodweddion gwarchodedig, a'r rhai a allai wynebu rhwystrau wrth geisio dysgu neu gael swydd gyflogedig.

4.18 Mae'r rhaglen yn cefnogi dyletswyddau Medr i hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad drwy fodelau cyflwyno hyblyg, cymorth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, cyfleoedd cyfrwng Cymraeg, cydnabod dysgu blaenorol, trefniadau cefnogi dysgu ychwanegol a buddsoddiad wedi'i dargedu er mwyn helpu darparwyr i ddenu, cadw a chefnogi dysgwyr sydd wedi'u tangynrychioli.

4.19 Bydd Medr yn parhau i fonitro deilliannau cyfranogiad, cyflawniad a dilyniant i ganfod a rhoi sylw i unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig neu rai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, ac yn defnyddio'r dystiolaeth hon i lywio datblygiad y rhaglen yn y dyfodol a gweithgarwch gwella parhaus.

## Ansawdd a Gwelliant parhaus

4.20 Rhaid i'r darparydd gydymffurfio ag amod Medr ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r amod yn mynnu bod darparwyr yn dangos bod eu darpariaeth o ansawdd da, a'u bod yn ymdrechu i wella'n barhaus. Mae'n ofynnol iddynt ystyried Fframwaith Ansawdd Medr.

4.21 Dylai darparwyr gael systemau hunanasesu ar waith i werthuso ansawdd y ddarpariaeth a defnyddio'r rhain i ysgogi gwelliant parhaus i brofiad y dysgwr. Dylai'r systemau hyn fod yn seiliedig ar ddata a safbwyntiau dysgwyr. Dylai darparwyr gael systemau i fonitro effaith camau a gymerir o ganlyniad i weithgarwch hunanasesu.

4.22 Disgwylir i ddarparwyr ddefnyddio mecanweithiau cyflwyno arloesol a hyblyg. Mae hyn yn cynnwys manteisio ar dechnolegau presennol a newydd, defnyddio amrywiaeth o arferion dysgu ac addysgu ac ymateb i anghenion dysgwyr, gan gynnwys rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai'r ddarpariaeth ymateb i newidiadau yn arferion ac anghenion y diwydiant a'r sector.

### Microgymwysterau

4.23 Un o nodau'r Rhaglen Brentisiaethau yw bod yn ymatebol ac yn hyblyg er mwyn rhoi'r sgiliau a'r cymwysterau cywir i brentisiaid er mwyn dechrau a symud ymlaen yn eu gyrfa ddewisol. Mae Medr wedi treialu dull sy'n galluogi prentisiaid i gwblhau cyrsiau byr a chymwysterau sy'n canolbwyntio ar gymwyseddau galwedigaethol allweddol sy'n gysylltiedig ag agenda Sero Net Cymru, yn ychwanegol at ofynion eu Fframwaith Prentisiaeth.

4.24 Bydd y dull hwn yn galluogi prentisiaid i gryfhau eu cymhwysedd galwedigaethol a gwella eu taith ddysgu ymhellach. Gall prentisiaid gael mynediad at ystod o gyrsiau byr o restr gyhoeddedig o gymwysterau a chyrsiau cymeradwy. Gall prentis gael mynediad at fwy nag un cwrs os yw'n briodol neu'n berthnasol i'w alwedigaeth ddewisol, os nad ydynt yn uwch na chap o £1,500.

4.25 Mae Medr yn bwriadu parhau â'r peilot microgymwysterau ochr yn ochr â gofynion craidd y Rhaglen Brentisiaethau, (fel y nodir yn y gyfres o ddogfennau Cais am Grant, yn amodol ar werthusiad ac ar y gyllideb sydd ar gael. Cyhoeddir canllaw ar wahân ar y rhan hon o'r rhaglen, a gallai gael ei newid neu ei dileu.

### Sicrwydd

4.26 Mae'n ofynnol i bob darparydd gydymffurfio ag amod Llywodraethu a Rheoli Medr.

4.27 Mae Medr yn defnyddio dull sicrwydd o'r dechrau i'r diwedd i fonitro'r Rhaglen Brentisiaethau. Rôl Medr yw sicrhau uniondeb y system brentisiaethau drwy adolygu a dilysu tystiolaeth, data a phrosesau darparwyr yn systematig ar draws cylch bywyd llawn y dysgwr a'r rhaglen.

4.28 Mae Medr yn cydnabod y bydd gwahanol brosesau'n briodol i wahanol fathau o ddarparwyr ac, er y darperir canllaw amlinellol, mater i'r darparwyr yw pennu, nodi a monitro effeithlonrwydd y systemau rheoli a'r prosesau sy'n addas ar gyfer eu sefydliad ac i gyflwyno i Medr yn unol â'r gofynion. Rhaid i unrhyw brosesau a ddefnyddir fod yn gadarn ac yn hygyrch. Disgwylir i ddarparwyr gwblhau rhaglen flynyddol o archwiliadau mewnol ac allanol. Mae Medr yn cadw'r hawl i adolygu prosesau a derbyn canfyddiadau neu grynodebau o adroddiadau archwilio.

## 5. Rhannu Prentisiaethau

5.1 Mae'r Rhaglen Rhannu Prentisiaethau yn helpu cyflogwyr micro a bach i recriwtio prentisiaid. Mae'n galluogi prentisiaid i weithio gyda nifer o gyflogwyr i gwblhau eu Fframwaith Prentisiaeth yn llwyddiannus.

5.2 Mae'r model Rhannu Prentisiaethau hefyd yn cefnogi sectorau lle mae contractau byrdymor yn gyffredin, er enghraifft gofal plant a'r diwydiannau creadigol, fel bo modd i ddysgwyr gael mynediad i'r sectorau hyn a chwblhau eu Fframwaith Prentisiaeth yn llwyddiannus.

5.3 I gefnogi'r dull hwn, bydd pob darparydd yn gyfrifol am ddarparu Prentisiaethau a Rennir.

## Model cyflwyno

5.4 Mae model Rhannu Prentisiaeth yn cyflogi prentisiaid drwy sefydliad arweiniol sy'n rheoli'r broses recriwtio, materion cyflogaeth, llesiant a thalu cyflog y dysgwr. Bydd prentisiaid yn cwblhau eu hyfforddiant drwy wahanol gyflogwyr cynnal. Bydd hyn yn galluogi cyflogwyr bach a micro i gymryd rhan yn y Rhaglen Brentisiaethau, am ei bod hi'n bosibl na fyddent wedi gallu cyflwyno holl elfennau'r Fframwaith Prentisiaeth o fewn eu sefydliad. Drwy'r model Rhannu Prentisiaethau gellir helpu cyflogwyr i rannu prentisiaid, sicrhau bod dysgwyr yn ennill yr ystod lawn o sgiliau a chymwyseddau sydd eu hangen i gwblhau'r fframwaith yn llwyddiannus. Mae'r dull hwn yn darparu cymorth a chefnogaeth sydd wedi'i thargedu'n well i gyflogwyr bach a micro a allai fod â llai o gapasiti mewnol i ymdrin â phrosesau cyflogaeth ac adnoddau dynol.

5.5 Cyfrifoldeb y sefydliad arweiniol yw talu cyflog y prentis ac adennill cyflogau gan y cyflogwyr cynnal.

5.6 Disgwylir i brentisiaid allu cael swydd gynaliadwy ar ôl cwblhau'r brentisiaeth, a dylai darparwyr gefnogi dysgwyr yn hynny o beth.

## Cymhwystra cyflogwyr

5.7 Gellir cynnig Rhannu Prentisiaethau yn yr holl fframweithiau sector.

5.8 Rhaid i'r holl ddysgu a gyflawnir drwy'r model Rhannu Prentisiaeth gydymffurfio â rheolau cymhwystra a'r Canllaw cyffredinol ar Brentisiaethau Lefel 2 i 5, ond yn ogystal â hynny:

- Cymhwystra – rhaid i'r cyflogwyr dan sylw fod yn fusnes micro (llai na 10 o weithwyr) neu'n fusnes bach (llai na 50 o weithwyr). Caiff cyflogwyr dderbyn hyd at ddau brentis ar unrhyw bryd drwy'r model Rhannu Prentisiaeth.
- Rhaid i'r sefydliad cyflogi arweiniol sicrhau:
    - Bod prentisiaid yn cwblhau lleoliadau gyda chyflogwyr cynnal, fel y manylir yn eu Cynlluniau Dysgu Unigol, gan gynnwys yr amcanion penodol a'r profiad arbenigol sydd i'w hennill o bob lleoliad.
    - Bod lleoliadau'n cael eu trefnu gyda'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan, a'u paru'n briodol ar sail cryfderau'r prentis, anghenion busnes y cyflogwr, a gofynion y Fframwaith Prentisiaeth perthnasol.
    - Cadw cofnodion a diweddaru system ddata LLWR i gynnwys manylion y cyflogwyr cynnal lle caiff pob prentis ei leoli.

## Cyllid ar gyfer y Model Rhannu Prentisiaethau

5.9 Bydd sefydliadau arweiniol yn derbyn cyllid hyd at uchafswm o £4000 fesul prentis hyd ddiwedd y brentisiaeth (gallai hyn newid).

## 6. Cyllid a thaliadau – darpariaeth graidd

### Model cyllido

6.1 Mae'r cyllid yn seiliedig ar yr hyn y mae angen i brentis unigol ei ddysgu er mwyn ennill ei Fframwaith Prentisiaeth. Mae'r model yn galluogi hyblygrwydd i deilwra'r rhaglen ddysgu i anghenion y dysgwr a'r cyflogwr.

6.2 Bydd gan bob cydran o'r brentisiaeth (sy'n golygu'r cydrannau a nodir ym mharagraff 2.9 o'r ddogfen hon) o'r Fframwaith Prentisiaethau Werth Uned Medr neu gyfradd sefydlog. Y gwerth cyllido mwyaf ar gyfer pob llwybr o fewn fframwaith prentisiaeth yw cyfanswm Gwerthoedd Uned Medr yr holl gydrannau perthnasol wedi'u lluosi â phris Uned Medr. Cyhoeddir yr uchafswm gwerth cyllido yn Llyfrgell Fframweithiau Medr (o fis Awst 2027). Mae Atodiad G y Pecyn Cais yn nodi'r gwerthoedd cyllido uchafswm dangosol ar gyfer pob fframwaith a llwybr ar adeg cyhoeddi.

6.3 Mae'r model cyllido yn cynnwys tair elfen:

- **Sefydlu/asesu**

  Bydd darparwyr yn cynnal asesiad o bob dysgwr i sefydlu cwmpas eu hanghenion dysgu, yn unol â'u methodoleg asesu, fel y nodir ym mharagraffau 4.4.

  Bydd canlyniad yr asesiad yn galluogi cyfrifo'r Gwerthoedd Uned Medr sydd eu hangen er mwyn i'r dysgwr gwblhau'r fframwaith (gwerth cyllido unigol), a hyd y cyllid (am faint o fisoedd y dylid cyllido'r dysgwr). Lle canfyddir drwy'r asesiad fod prentis eisoes wedi cwblhau cymhwyster sy'n rhan o'r llwybr, gan gynnwys cymwysterau sgiliau hanfodol amgen, byddai'r Gwerth Uned Medr cyfatebol yn cael ei ddidynnu o'r uchafswm gwerth cyllido.

  Bydd y darparydd yn cyflwyno'r gwerth cyllido unigol a hyd y cyllid i LLWR. Ni ellir newid y rhain ar ôl rhewi data LLWR yn derfynol (mis 17) - mis Rhagfyr - yn y flwyddyn grant (1 Awst - 31 Gorffennaf) pan ddechreuwyd y rhaglen. Mae hyn yn golygu bod gan ddarparwyr bum mis ar ôl diwedd y flwyddyn grant i sicrhau bod y rhain yn gywir.

  Cyfradd safonol sefydlog yw'r taliad asesu a sefydlu o £400 sydd i'w dalu ar gyfer pob dysgwr, ac a delir i'r darparydd wedi i brentis ddechrau'r Rhaglen Brentisiaethau ac ar ôl diweddaru LLWR.

- **Taliadau cyflwyno misol**

  Bydd y cyllid misol yn seiliedig ar y gwerth cyllido unigol a bennir ar sail canlyniad yr asesiad. Cyfrifir y gost gyflwyno fisol ar sail y gwerth cyllido unigol llai gwerth y taliad sefydlu ac asesu a gwerth y taliad deilliannol. Caiff hyn ei gyllido'n fisol dros gyfnod y brentisiaeth, a bennir drwy'r asesiad.

  Isafswm hyd prentisiaeth yw 12 mis. Nid oes uchafswm amser penodol wedi'i bennu. Cytunir ar yr uchafswm amser rhwng y dysgwr, y cyflogwr a'r darparydd, yn seiliedig ar y dysgu sydd i'w gwblhau ac anghenion y dysgwr.

  Os bydd dysgwr yn cwblhau ac yn cyflawni'r fframwaith yn gynharach na'r disgwyl, bydd y darparydd yn derbyn taliad am y gwerth cyllido llawn, ar yr amod bod y cyfnod cymhwystra o 12 mis ar gyfer cyllid wedi'i fodloni a bod yr amodau grant perthnasol a'r gofynion tystiolaeth yn cael eu bodloni.

Gwnaiff y gost fisol o ddarparu dysgu cyfrwng Cymraeg ddenu ymgodiad gwerth hyd at 20%. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd Medr yn adolygu hyn dros gyfnod y grant, yn unol â pholisïau ac amcanion Medr.

- **Taliad Deilliannol**
  Bydd taliad deilliannol o 3% o werth cyllido'r brentisiaeth yn cael ei dalu yn dilyn cyflawni'r fframwaith, gyda Thystysgrif Fframwaith Prentisiaeth yn dystiolaeth o hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd Medr yn adolygu hyn dros gyfnod y grant, yn unol â pholisïau ac amcanion Medr.

### Cyllideb ar gyfer costau ychwanegol

6.4 Bydd darparwyr yn gallu defnyddio'r buddsoddiad hwn i gael gwared ar rwystrau i ddysgu neu i fuddsoddi mewn adnoddau Cymraeg, neu ddeunyddiau arloesol i gyflwyno'r Gymraeg i ddysgwyr.

6.5 Mae'r meysydd i'w cefnogi drwy'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn cynnwys y blaenoriaethau isod, ymhlith eraill:

- Cyfrwng Cymraeg
- Cefnogi dysgwyr o grwpiau wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys rhai o grwpiau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol
- Cefnogi dysgwyr anabl a dysgwyr â nodweddion gwarchodedig
- Cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol
- Mentora ar gyfer cyflogwyr a dysgwyr

### Cyfrifo'r gwerth cyllido

6.6 Bydd gan bob cydran o'r fframwaith (fel y nodir ym mharagraff 2.9 o'r ddogfen hon) swm o ddysgu wedi'i ddyrannu iddi. Caiff hyn ei fynegi ar ffurf Unedau Medr neu werth sefydlog.

6.7 Bydd maint y dysgu yn cael ei luosi â phwysoliad prentisiaeth. Bydd pwysoliadau prentisiaethau yn seiliedig ar feysydd fframwaith sector y brentisiaeth, a chostau'r band asesu a dysgu i adlewyrchu gwahanol gostau cyflwyno. Bydd pwysoliad prentisiaeth yn cael ei gymhwyso i bob llwybr prentisiaeth. Bydd y pwysoliadau fframwaith sector yn cyd-fynd yn fras â'r pwysoliadau meysydd pwnc ar draws Addysg, er y gall union werth y pwysoliad ar gyfer y fframwaith sector fod yn wahanol oherwydd y gwahaniaethau rhwng cyflwyno prentisiaethau a mathau eraill o ddarpariaeth. Ceir hyd i Bwysoliadau Fframwaith Sector Prentisiaeth yn Atodiad 1.

6.8 Caiff maint pwysoledig y dysgu (Unedau Medr) ei luosogi â Phris Uned Medr. Pris Uned Medr yw gwerth ariannol un Uned Medr, sef £70. Bydd gan Bris Uned Medr werth ariannol sefydlog ar draws pob fframwaith ond gall newid dros amser. Mae Atodiad G y pecyn ymgeisio yn nodi'r gwerthoedd cyllido uchaf dangosol ar gyfer pob fframwaith a llwybr.

**Uchafswm Gwerth Llwybr yw**

- pris uned Medr (£70) x uchafswm yr Unedau Medr perthnasol (Uchafswm Maint Dysgu x Pwysoliad Prentisiaeth) ar gyfer pob llwybr. Mae hyn yn cynnwys:
    - Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru - £400 fesul cymhwyster (uchafswm o £1,200 fesul llwybr)

**Prosesau Talu ac Amserlenni Cysoni**

6.9 Telir cyllid grant bob mis yn seiliedig ar broffil gwastad, gyda 63% yn cael ei dalu rhwng Awst a Mawrth a 37% rhwng Ebrill a Gorffennaf. Bydd gwaith cysoni rhwng gweithgarwch a gyllidir gan y darparydd a phroffil rhagolygon y darparydd yn digwydd bob chwarter, gydag addasiad naill ai ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, neu yn ystod y flwyddyn lle bo'n briodol.

**Dyraniadau grant**

6.10 Bydd Medr yn darparu dyraniad grant sylfaenol i ddarparwyr sy'n bodloni amodau'r rhaglen i'w galluogi i gynllunio adnoddau a darpariaeth ar gyfer y dyfodol a chefnogi hyfywedd ariannol. Bydd swm y grant a ddyrennir yn amodol ar y gyllideb a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru.

6.11 Bydd y dyraniad grant yn seiliedig ar:

- Ragdybiaethau dyrannu sylfaenol dangosol, gan gynnwys y meincnod capasiti y cyfeirir ato ym mharagraff 1.4 a'r dyraniad a ddisgwylir yn y flwyddyn gyntaf ar gyfer derbynwyr newydd, yn dibynnu ar y fethodoleg dyrannu, amodau'r rhaglen a'r gyllideb sydd ar gael.
- Nifer y dysgwyr sy'n parhau.
- Nifer y dysgwyr wedi'u dadleoli (os o gwbl).
- Dysgwr newydd yn dechrau.
- Blaenoriaethau o ran sgiliau fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru.
- Anghenion economaidd rhanbarthol.
- Dyraniad cyllideb costau ychwanegol.

6.12 Bydd darparwyr yn gallu rheoli'r buddsoddiad a ddyrennir iddynt mewn modd hyblyg i'w galluogi i fodloni'r disgwyliadau a nodir yng nghanllawiau'r rhaglen.

6.13 Gall Medr ddefnyddio dulliau cyllido eraill i gyflawni deilliannau'r Rhaglen, pan fo angen diogelu parhad darpariaeth prentisiaethau.

## 7. Rheoli dysgwyr

### Cymhwystra

7.1 Mae’r adran hon yn nodi'r rheolau ynghylch cymhwystra dysgwyr ar gyfer buddsoddiad prentisiaeth yng Nghymru, ynghyd â chanllawiau ar ddangos tystiolaeth o gymhwystra dysgwyr, i gynorthwyo darparwyr â'u prosesau sefydlu.

7.2 Er mwyn helpu darparwyr drwy sicrhau cyn lleied o faich gweinyddol ag sy'n bosibl yn gysylltiedig â chymhwystra dysgwyr, yr unig beth y bydd angen i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ei wneud fydd cadarnhau ar eu ffurflen ymrestru fod ganddynt hawl i fyw a gweithio yn y DU, a'u bod wedi byw'n gyfreithlon yn y DU am y tair blynedd blaenorol. I’r nifer fach o ddysgwyr cymwys nad ydynt yn bodloni’r gofyniad hwn, rhaid i ddarparwyr gymryd camau i’w bodloni eu hunain bod y dysgwr yn preswylio’n gyfreithlon yn y DU. I gynorthwyo darparwyr ac archwilwyr cyllid, ceir cyngor pellach ynghylch dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth â rheolau cymhwystra dysgwyr ar wefan Medr.

7.3 Wrth ystyried cymhwystra dysgwyr, y ffactor allweddol yw'r wlad lle mae'r cyfranogwr yn gweithio. Dangosir cyfrifoldebau cyllido trawsffiniol yn y tabl isod:

| Man preswylio'r cyfranogwr | Lleoliad y cyflogwr | Y brif wlad lle mae'r cyfranogwr yn gweithio | Yr amser a dreulir yn gweithio yn y brif wlad | Cyllid |
|---|---|---|---|---|
| Cymru neu Loegr | Cymru | Cymru | Mwy na 51% | Cyllid a blaenoriaethau Medr. |
| Cymru neu Loegr | Lloegr | Cymru | Mwy na 51% | Cyllid a blaenoriaethau Medr. |
| Cymru neu Loegr | Lloegr | Lloegr | O leiaf 50% | Trefniadau ariannol a blaenoriaethau Llywodraeth y DU. |
| Cymru neu Loegr | Cymru | Lloegr | O leiaf 50% | Trefniadau ariannol a blaenoriaethau Llywodraeth y DU. |

- Y ffactor a ddefnyddir i bennu lleoliad y cyflogwyr hynny sy'n agos at/sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr yw lleoliad y swyddfa neu lle telir Ardrethi Busnes, a lle mae'r dysgwr wedi'i leoli'n bennaf.

- **DS:** Pan fydd dysgwr yn symud ymlaen i lefel uwch o unrhyw weithgaredd a gyflawnir yn gysylltiedig â'r rhaglen, heb seibiant o fwy nag wyth wythnos

calendr i'r dysgu, bydd y statws cymhwystra gwreiddiol yn parhau i fod yn berthnasol.

7.4 Mae unigolion yn gymwys i gael mynediad i brentisiaeth os yw'r canlynol yn wir wrth iddynt gael mynediad:

- Nad ydynt o oedran ysgol gorfodol yng Nghymru; nac yn mynd i'r ysgol neu'r coleg yn llawnamser fel disgybl neu fyfyriwr; nac mewn addysg uwch amser llawn;
- Eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra preswylio fel y'u rhestrir yn Atodlen Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Os nad ydynt yn y ddalfa nac ar remánd yn y ddalfa;
- Os nad ydynt yn derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru na'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg;
- Os nad ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw raglen gyflogaeth neu fenter arall a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru;
- Os nad ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw raglenni dysgu galwedigaethol eraill a gyllidir gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru; ac
- Y byddant, o leiaf, yn cwblhau'r elfen cymhwysedd mewn fframwaith dynodedig.

**Statws Cyflogaeth**

7.5 Rhaid i brentisiaid, ac eithrio'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a chwarae, gael eu cyflogi am isafswm o 16 awr yr wythnos. Lle bo gan ddysgwyr gontract am lai na'r isafswm hwn, rhaid i ddarparwyr gadw tystiolaeth gadarn i ddangos eu bod, serch hynny, yn bodloni'r gofyniad hwn yn rheolaidd.

**Esemptiad Gofal Plant a Gwaith Chwarae**

7.6 Mae gan 20% o'r gweithlu yn y sector hwn gontractau cyflogaeth o lai na 16 awr yr wythnos. I gydnabod hyn, bydd yn ofynnol i ddysgwyr sy'n ymgymryd â llwybrau ar lefel 2 neu 3 yn y sectorau hyn gael eu cyflogi am isafswm o 10 awr yr wythnos.

**Hunangyflogaeth**

7.7 Mae dysgwyr hunangyflogedig yn gymwys i gael mynediad i'r Rhaglen Brentisiaethau os bodlonir yr holl ofynion cymhwystra mynediad eraill. Wrth ystyried derbyn dysgwyr sy'n hunangyflogedig i'r rhaglen, rhaid i ddarparwyr sicrhau bod gan ddysgwyr ddigon o gefnogaeth yn y gwaith i ddatblygu drwy eu fframwaith. Rhaid i'r darparydd ei sicrhau ei hun fod pob prentis hunangyflogedig yn gweithio yn unol â safonau Iechyd a Diogelwch, yn enwedig o ran goruchwyliaeth.

7.8 Dim ond ar lefel 3 (lefel 4 ar gyfer adeiladu a'r amgylchedd adeiledig) neu uwch y mae prentisiaid hunangyflogedig yn gymwys i ddilyn prentisiaethau.

7.9 Rhaid i'r prentis hunangyflogedig gael ei oruchwylio'n effeithiol gan berson cymwys yn y diwydiant yng ngalwedigaeth y brentisiaeth. Rhaid i'r goruchwyliwr feddu ar y profiad, y wybodaeth a'r cymwysterau priodol i roi cefnogaeth. Rhaid i'r prentis hunangyflogedig gael cofnod o dasgau / cymwyseddau'r cymhwyster wedi'u cymeradwyo gan berson cymwys yn y diwydiant neu gyflogwr.

7.10 Dylai'r darparydd sicrhau nad yw'r prentis yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau nad yw wedi'u hyfforddi nac wedi'u cymhwyso i'w cyflawni yn ystod y brentisiaeth ac

eithrio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol gan oruchwyliwr cymwys yn y diwydiant (gweler paragraff 7.9), a hynny dim ond os nad yw'r gweithgareddau'n groes i unrhyw ofyniad cyfreithiol am gymhwysedd.

7.11 Rhaid i weithwyr adeiladu hunangyflogedig:

- Fod yn dysgu ar lefel 4 neu uwch, ar ôl ennill prentisiaeth adeiladu ar lefel 3 eisoes.
- Cael isafswm o dair blynedd o brofiad perthnasol yn y diwydiant adeiladu o fewn y pum mlynedd cyn dechrau'r brentisiaeth.
- Cael eu goruchwylio gan berson cymwys o fewn y diwydiant, fel y disgrifir ym mharagraff 7.9.
- Gwnewch yn siŵr fod pob tasg a chymhwysedd wedi'u cymeradwyo gan weithiwr proffesiynol cymwys o'r diwydiant neu gyflogwr. Yn y cyd-destun hwn, gellir dangos tystiolaeth o gymhwysedd drwy, er enghraifft, gymwysterau proffesiynol, siarteriaeth, cerdyn CSCS ar lefel briodol, neu ardystiad Trydanol, Gwresogi ac Awyru a reoleiddir gan y diwydiant.
- Derbyn hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a dal cerdyn CSCS priodol h.y. cerdyn CSCS prentis.
- Peidio ag ymgymryd ag unrhyw weithgareddau nad ydynt wedi'u hyfforddi na'u cymhwyso ar eu cyfer dros gyfnod y brentisiaeth, ac eithrio lle maent o dan oruchwyliaeth uniongyrchol goruchwyliwr cymwys addas o'r diwydiant, a dim ond lle nad yw gweithgareddau o'r fath yn torri unrhyw ofynion cymhwysedd cyfreithiol.
- DS: Mae'r gofynion hyn yn berthnasol nid yn unig i ddysgwyr sy'n hunangyflogedig ar ddechrau eu rhaglen ond hefyd i'r rhai sy'n dod yn hunangyflogedig yn ystod y brentisiaeth.

7.12 Bydd y gofynion cymhwystra hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a gallent newid.

**Graddedigion**

7.13 Disgwylir i raddedigion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra eraill ddechrau naill ai ar brentisiaeth (Lefel 3) neu ar brentisiaeth uwch (Lefel 4/5)

7.14 Gall amgylchiadau godi lle bydd gofynion Fframwaith Prentisiaeth penodol yn atal dysgwr graddedig rhag ymgymryd â phrentisiaeth Lefel 3 neu Lefel 4 heb ymgymryd â phrentisiaeth Lefel 2 yn gyntaf. Bryd hynny, bydd angen i'r darparydd ddangos tystiolaeth glir o fodloni'r gofyniad hwn yn ffeil y dysgwr

7.15 Ni ddylai'r brentisiaeth na'r brentisiaeth uwch fod ar yr un llwybr galwedigaethol â'r cyflawniad Addysg Uwch onid yw cynnwys y cyflawniad Addysg Uwch yn sylweddol wahanol i'r brentisiaeth neu'r brentisiaeth uwch. Yn yr achos hwn, dylai'r darparydd nodi'r gwahaniaeth yng nghynnwys y cyflawniad Addysg Uwch o'i gymharu â'r brentisiaeth neu'r brentisiaeth uwch a chadw'r dystiolaeth hon ar ffeil. Gwneir hyn er mwyn sicrhau parhad dysgu, osgoi ailadrodd unrhyw weithgareddau dysgu neu asesu a gwblhawyd yn flaenorol, a sicrhau defnydd priodol o fuddsoddiad cyhoeddus

## Trosglwyddiadau

7.16 Gall dysgwyr gynllunio i symud o fewn yr un rhaglen i ddarparydd arall, cyn cwblhau'r Cynllun Dysgu Unigol. Dylai darparwyr geisio sicrhau bod cyn lleied â phosib o aflonyddwch i wasanaethau dysgu a chymorth wrth drosglwyddo. Er mwyn

hwyluso trosglwyddiad effeithiol, dylai darparwyr gael gweithdrefnau a phrosesau i ymdrin â throsglwyddiadau, sydd o leiaf yn ceisio rhannu neu gael:

- Atgyfeiriad (os yw'n berthnasol a chofnodion Asesu Cychwynnol;
- Cofnodion asesu a chyflawniad;
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â gofynion cymorth. Wrth rannu unrhyw ddata, rhaid cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

7.17 I gefnogi trosglwyddiadau:

- Rhaid i'r darparydd newydd gadw copïau o waith papur priodol y dysgwr sy'n trosglwyddo ar ffeil y dysgwr;
- Dylai'r hen ddarparydd gadw copi o'r llythyr neu'r e-bost a anfonwyd at y darparydd newydd, yn cadarnhau bod y trosglwyddiad wedi digwydd, ar ffeil y dysgwr.

## Dilyniannau

7.18 Bydd dysgwr sy'n symud ymlaen yn syth o brentisiaeth Lefel 2 i brentisiaeth Lefel 3, neu o brentisiaeth Lefel 3 i brentisiaeth Lefel 4/5, yn cael ei gyfrif fel dysgwr sy'n parhau i ddibenion y system, felly ni fydd yn ofynnol i'r darparydd lenwi ffurflen ymrestru newydd. Dylai'r dilyniant ddigwydd cyn pen wyth wythnos ar ôl cwblhau'r fframwaith lefel is.

7.19 Rhaid i'r darparydd:

- Wirio bod yr wybodaeth sydd ganddo am y dysgwr yn gywir a bod tystiolaeth i gefnogi unrhyw newidiadau;
- Diweddaru Cynllun Dysgu Unigol y dysgwr i gynnwys manylion y brentisiaeth newydd, e.e. dyddiad dechrau, hyd disgwyliedig a manylion y fframwaith; ystyried a chofnodi unrhyw DCB perthnasol;
- Diweddaru Cytundeb Dysgu Prentisiaeth y Dysgwr (os yw'r cyflogwr yr un peth ar gyfer y ddwy raglen) neu baratoi cytundeb newydd (os yw'r cyflogwr yn wahanol); a
- Chwblhau asesiad newydd ar gyfer y prentisiaid ac agor rhaglen gyflwyno newydd i'w chyflwyno i LLWR.

7.20 Pan fo mwy nag wyth wythnos wedi mynd heibio rhwng diwedd y brentisiaeth gyntaf a dechrau'r un nesaf, rhaid i'r darparydd gynnal gwiriadau cymhwysedd.

## Tynnu'n Ôl

7.21 Ystyrir bod dysgwr wedi tynnu’n ôl o’r Rhaglen Brentisiaethau:

- Os gwyddys eu bod wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r rhaglen, a bod hynny wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig gan unrhyw un o blith y dysgwr, yr asesydd neu'r cyflogwr.
- Lle nad oes tystiolaeth o gyflawni gweithgarwch cymwys a gyllidir i gefnogi'r broses gysoni ddynodedig, a lle nad oes egwyl o'r rhaglen yn weithredol.
- Rhaid i'r dyddiad tynnu'n ôl adlewyrchu'r dyddiad diwethaf pan oedd tystiolaeth ar gael i gefnogi cyllid grant, neu ddyddiad dechrau egwyl os yw hynny'n berthnasol.

7.22 Rhaid i ddarparwyr gael systemau cadarn ar waith i sicrhau bod dysgwyr sydd mewn perygl o dynnu'n ôl yn gynnar yn cael eu nodi, a bod cymorth ychwanegol a mentora yn cael eu cynnig iddynt i'w helpu i barhau â'r rhaglen.

7.23 Pan gadarnheir tynnu'n ôl, rhaid i ddarparwyr gadw tystiolaeth o asesiadau a'r hysbysiad o dynnu'n ôl.

## Diswyddo

7.24 Pan fydd prentis yn cael ei ddiswyddo, neu fel arall yn rhoi'r gorau i gyflogaeth gyda'i gyflogwr, disgwylir i'r darparydd, o leiaf, gefnogi'r dysgwr drwy:

- Gysylltu â chyflogwyr perthnasol eraill y maent yn gweithio gyda nhw i ganfod a oes unrhyw swyddi gwag eraill ar gael sy'n addas
- Cysylltu â darparwyr eraill i archwilio a allai swyddi gwag addas fod ar gael
- Cyfeirio'r dysgwr i Dewis Gyrfa am gyngor ynghylch yr opsiynau sydd ar gael
- Cyfeirio'r dysgwr i'r Gwasanaeth Swyddi Prentisiaeth, neu wasanaeth tebyg, i ganfod swyddi gwag addas sy'n cael eu hysbysebu
- Nodi a hwyluso camau cymorth priodol eraill, fel rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru

7.25 Fel prif ffocws, dylid galluogi'r prentis i barhau a'i brentisiaeth lle bynnag y bo modd.

7.26 Rhaid cadw tystiolaeth o'r gweithgareddau hyn ar ffeil y dysgwr.

## Egwyliau

7.27 Dim ond pan fydd y dysgwr i ffwrdd o'r gwaith am gyfnod estynedig y dylid nodi bod dysgwr ar egwyl o'i raglen ddysgu, e.e. o ganlyniad i salwch, mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth ac ati neu (mewn achosion eithriadol) lle bo amgylchiadau'r dysgwr yn peri bod angen iddo gael egwyl untro o'i raglen ddysgu. Pan fydd dysgwr yn cael egwyl, mae'n ofynnol i'r darparydd ei sicrhau ei hun fod y dysgwr wedi ymrwymo i ddychwelyd i ddysgu ar ôl yr egwyl, a bod y cyflogwr yn cadw ei swydd ar agor.

7.28 Dyma resymau derbyniol dros gael egwyl:

i. Salwch y dysgwr.
ii. Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu.
iii. Rhesymau personol sy'n arwain at gyfnod o absenoldeb o'r gwaith e.e. profedigaeth, cyfrifoldebau gofalu, gwyliau estynedig.
iv. Terfynu cyflogaeth (lle nad yw'r darparydd yn gallu parhau i gyflwyno'r Rhaglen Brentisiaethau).
v. Rheswm arall dros gael Egwyl - ni ddylid ond defnyddio hwn pan nad yw'r un categori dilys arall ar gyfer egwyl yn berthnasol (e.e. absenoldeb tadolaeth yn unol â thelerau ac amodau'r cyflogwyr, neu egwyl o'r gwaith a gychwynnir gan y cyflogwr).

7.29 Ni ddylai'r egwyl fod yn hwy na:

- 26 wythnos, neu
- 52 wythnos (yn achos absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu)

7.30 Disgwylir i ddarparwyr gael system ar waith i sicrhau bod hyd egwyliau dysgwyr yn cael ei fonitro'n weithredol ac yn fynych. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir ceisio cymeradwyaeth Medr ar gyfer egwyliau hwy na 26 wythnos am resymau eraill heblaw absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu.

7.31 Rhaid terfynu'r dysgu os nad oes unrhyw debygolrwydd o ddychwelyd i ddysgu. Os na fydd y dysgwr yn dychwelyd i ddysgu ar ddiwedd y cyfnod o egwyl, ystyrir bod y dysgwr wedi terfynu'r dysgu. Daw hyn yn weithredol o'r diwrnod gwaith olaf lle ceir tystiolaeth o bresenoldeb y dysgwr ar raglen ddysgu.

**Gofynion Adolygu a Therfynu Egwyl cyn diwedd y flwyddyn**

7.32 Mae'r gofynion canlynol yn berthnasol yn ogystal â'r rhai a bennir uchod ac yn ymwneud yn benodol â phrosesau sydd i'w cynnal cyn y mis mesur terfynol ym mlwyddyn y Dyfarniad (Cyfnod 17). Er mwyn sicrhau cywirdeb a hygrededd data cyhoeddedig ar gyrhaeddiad, rhaid i ddarparwyr weithredu proses adolygu strwythuredig ar gyfer pob dysgwr sydd ar gyfnod o egwyl. Mae'n ofynnol i ddarparwyr:

- Gynnal adolygiadau ffurfiol o'r holl egwyliau gweithredol yn ystod Cyfnodau 14, 15, ac 16.
- Terfynu unrhyw egwyl sydd wedi mynd neu a fydd yn mynd heibio cyfnod o 26 wythnos (52 wythnos ar gyfer mamolaeth/mabwysiadu) erbyn diwedd Cyfnod 17.

## Dileu

7.33 Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio ag Egwyddorion Rheoli Data Ôl-16 a pheidio dileu cofnodion ond yn unol â'r canllaw hwn.

7.34 I gefnogi'r weithred o ddileu, rhaid i ddarparwyr gadw llwybr archwiliadwy llawn am isafswm o 24 mis, yn dilyn y dyddiad dileu i ddibenion archwilio. Fel isafswm dylai'r dystiolaeth gynnwys:

- Holl ddogfennau cychwynnol y dysgwr, a
- Chymeradwyaeth uwch swyddog yn eich sefydliad ar gyfer y dileu a'r rheswm pam y cafodd y cofnod ei ddileu.

## Dysgwyr wedi'u dadleoli

7.35 Rhagwelir y bydd symud o drefniant caffael contractau ar gyfer cyflwyno prentisiaethau i ddull a gyllidir drwy grant yn arwain at rwydwaith cyflwyno mwy sefydlog yn y dyfodol, ac yn cael gwared ag 'ymyl clogwyn' contractau sydd wedi'u cyfyngu gan amser. Fodd bynnag, ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen newydd ceir risg y bydd rhai dysgwyr yn cael eu dadleoli os na fydd yr holl ddarparwyr cyfredol yn ymrwymo i'r trefniadau newydd i gyllido drwy grant.

7.36 Yn y dyfodol, os caiff cyllid grant ei dynnu'n ôl gan ddarparydd yn dilyn proses ymyrryd Medr, neu os yw fel arall yn penderfynu tynnu'n ôl o'r ddarpariaeth, gall hyn hefyd achosi i ddysgwyr gael eu dadleoli. Gall yr amod Rheoleiddiol ar gyfer cyllid i ddiogelu dysgwyr hefyd fod yn berthnasol yn y sefyllfa hon, gyda Medr yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gynhyrchu a gweithredu cynllun diogelu dysgwyr.

7.37 Bydd Medr yn ailddosbarthu ymhlith darparwyr y dyfarnwyd grant iddynt. Mae egwyddorion allweddol yn cynnwys:

- **Derbyn Gorfodol**: Rhaid i bob darparydd y dyfernir grant iddo dderbyn dysgwyr wedi'u dadleoli lle mae rhaglen ddysgu'r dysgwr yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth y maent yn ei chynnig.
- **Opsiwn Isgontractio**: Gall darparwyr leoli dysgwyr gydag isgontractwyr os na allant ddarparu'r sector galwedigaethol gofynnol yn uniongyrchol.
- **Lleoliad sy'n Canolbwyntio ar y Dysgwr**: Wrth ddyrannu dysgwyr rhoddir blaenoriaeth i'r sector a'r rhanbarth sy'n cyfateb orau i bob dysgwr a chyflogwr.
- **Cap Dyrannu**: Ni ddyrennir dysgwyr wedi'u dadleoli i unrhyw ddarparydd i'r graddau y bydd hynny'n fwy na 10% o werth eu dyraniad blynyddol, onid:
  - Y darparydd yw'r partner rhanbarthol a/neu sectorol mwyaf priodol a gall ddangos digon o gapasiti i reoli maint y ddarpariaeth dan sylw drwy achos busnes a gymeradwyir gan Medr.
  - Yw Medr yn penderfynu bod angen mynd y tu hwnt i'r cap er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth i ddysgwyr.

7.38 Bydd data perfformiad ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u dadleoli yn cael eu cofnodi a'u rheoli ar wahân i ddata ar ddysgwyr sy'n parhau a dechreuwyr newydd drwy ddata LLWR.

# 8. Cymorth i ddysgwyr

## Costau ychwanegol

8.1 Ar hyn o bryd, fel yr amlinellwyd yn ei gynllun gweithredol ar gyfer 2026-27, mae Medr yn cynnal adolygiad trylwyr o fodelau cyllido ar draws y sector trydyddol er mwyn nodi blaenoriaethau ar gyfer newid.

8.2 Bydd y Rhaglen Brentisiaethau yn ystyried canlyniadau'r adolygiad hwn. O fis Awst 2027, nes bod dull ehangach wedi'i gadarnhau ar gyfer Medr, bydd dyraniad grant ar wahân yn cael ei ddyfarnu i bob darparydd sy'n dal grant prentisiaeth, sydd i'w ddefnyddio i gynorthwyo darparwyr dysgu i ddenu amrywiaeth eang o ddysgwyr o bob rhan o Gymru i brentisiaethau, ac i'w cefnogi a'u cadw.

8.3 Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn annog ac yn ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog. Bydd darparwyr yn gallu defnyddio'r cyllid hwn i gael gwared ar rwystrau i ddysgu neu i fuddsoddi mewn adnoddau Cymraeg, ac adnoddau arloesol i gyflwyno’r Gymraeg i ddysgwyr.

8.4 Mae'r meysydd i'w cefnogi drwy'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn cynnwys y blaenoriaethau dilynol isod, ymhlith eraill:
- Cyfrwng Cymraeg;
- Dysgwyr o grwpiau wedi'u tangynrychioli;
- Dysgwyr â nodweddion gwarchodedig;
- Dysgwyr ag anableddau a dysgwyr ag ADY;
- Mentora ar gyfer cyflogwyr a dysgwyr.

8.5 Bydd Medr yn datblygu canllaw pellach ar ddefnyddio'r dyraniad costau ychwanegol yn ystod 2026/27. Gellir newid neu ychwanegu at feysydd cymorth.

## Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY)

8.6 Bydd y gronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol yn helpu darparwyr i weithio'n hyblyg a sicrhau'r cymorth dysgu ychwanegol sydd ei angen i'w galluogi i wneud eu darpariaeth yn hygyrch i brentisiaid ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Gellir defnyddio buddsoddiad CDY hefyd i gynorthwyo darparwyr gyda'r gost o wneud addasiadau rhesymol fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, mae darparwyr a chyflogwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

8.7 Cymhwystra:
- Dim ond i gefnogi prentisiaid sydd ag anhawster dysgu a/neu anabledd fel y'i diffinnir o dan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 y dylid defnyddio buddsoddiad CDY.
- Ni ddylid ystyried bod gan brentis ADY dim ond oherwydd bod yr iaith y cânt eu haddysgu ynddi yn wahanol i'r iaith a siaradwyd yn eu cartref ar unrhyw adeg.
- Nid yw prentis sydd â gofynion iaith Saesneg yn dod o dan y diffiniad o ADY i ddibenion y buddsoddiad hwn.

- I gefnogi ADY y prentis rhaid cael asesiad diagnostig, y mae'n rhaid iddo fod wedi'i gofnodi o fewn Cynllun Dysgu Unigol y prentis, ynghyd ag unrhyw Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol sydd ei hangen.
- Rhaid cadw asesiad o anghenion y prentis yn gyfredol, oherwydd gallai anghenion unigol newid, yn enwedig wrth bontio o addysg orfodol i ddysgu ôl-16. Dylai darparwyr ystyried gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng Nghynllun Dysgu Unigol (CDU) prentis, y mae'n rhaid ei adolygu'n flynyddol, neu ddogfennau statudol perthnasol eraill, fel rhan o'r broses asesu gychwynnol.

## Gweithgareddau Cymwys

8.8 Gellir defnyddio'r buddsoddiad i gefnogi Darpariaeth Dysgu Ychwanegol ac addasiadau rhesymol, yn enwedig lle na fydd ar brentisiaid o bosib angen Darpariaeth Dysgu Ychwanegol wedi'i chynllunio'n arbennig ond y bydd angen addasiadau cymorth arnynt i gymryd rhan yn effeithiol.

8.9 Dyma rai enghreifftiau o weithgarwch cymwys:

- **Asesiadau** – Gall hyn olygu asesiad allanol fel asesiad gan Seicolegydd Addysg, gan gynnwys rhai a ddarperir gan sefydliadau arbenigol neu drydydd sector fel RNIB Cymru, Cyngor Cymru i'r Deillion, Gweithredu ar Golli Clyw Cymru neu Gyngor Cymru i Bobl Fyddar.
- **Cymorth Cyfathrebu** – gan gynnwys arwyddwyr a dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu weithwyr cymorth cyfathrebu ar gyfer prentisiaid ag anghenion cymorth eraill sy'n gysylltiedig â chyfathrebu.
- **Cynorthwywyr Cymorth** – cymorth unigol neu ar y cyd gan Gynorthwyydd Cymorth Dysgu, cymorth gofal personol, cymorth i fynd ar gludiant ac oddi arno ac o gludiant, cymorth gan gynorthwyydd cymorth sydd wedi'i hyfforddi ar Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD), cymerwr nodiadau neu gofnodwr, neu dywysydd gweld. Lle defnyddir cynorthwywyr cymorth, rhaid i Ddarparwyr sicrhau bod cymorth a gyllidir drwy CDY wedi'i dargedu'n glir at ddysgwyr unigol neu grwpiau diffiniedig ag anghenion cymorth ychwanegol wedi'u nodi. Dylid ystyried cymorth sydd ar gael yn arferol i bob dysgwr o fewn dosbarth neu raglen yn rhan o'r Ddarpariaeth Dysgu Gyffredinol, ac nid yw'n gymwys ar gyfer buddsoddiad mewn CDY.
- **Technoleg a Chyfarpar Cynorthwyol** – Gellir defnyddio buddsoddiad CDY o i brynu meddalwedd neu gyfarpar arbenigol. Gall yr offer hyn gynnwys meddalwedd testun-i-leferydd, neu lais-i-destun, bysellfwrdd, llygoden neu ddarllenwyr sgrin arbenigol.
- **Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol (Trefniadau Mynediad Arholiadau)** – Gellir defnyddio buddsoddiad CDY i ddarparu cymorth sydd ei hangen ar ddysgwyr i gael mynediad at arholiadau. Rhaid i gymorth a gyllidir drwy CDY ar gyfer trefniadau mynediad arholiadau fod yn seiliedig ar angen dysgu ychwanegol sydd wedi'i nodi, a rhaid cael asesiad a thystiolaeth briodol i gefnogi hynny. Dylai addasiadau fod â chysylltiad clir â ffordd arferol y dysgwr o weithio, a bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi mynediad teg at asesiad.

  Rhaid i ddarparwyr sicrhau mai dim ond lle bo'r trefniadau'n cynrychioli cefnogaeth ychwanegol y tu hwnt i'r gefnogaeth safonol ar gyfer arholiadau y defnyddir buddsoddiad CDY. Nid yw prosesau nac addasiadau cyffredinol i arholiadau sydd ar gael yn arferol i bob dysgwr, neu a gyllidir gan gyrff dyfarnu neu drwy gyllid darpariaeth graidd, yn gymwys ar gyfer buddsoddiad CDY.

8.10 Nid yw'r enghreifftiau uchod yn gynhwysfawr. Rhaid i bob cefnogaeth fod yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd ar gyfer y dysgwr, yn ychwanegol at y ddarpariaeth sydd ar gael fel arfer, yn gyson â chanllawiau cyllido ac yn seiliedig ddogfennau sy'n dystiolaeth o'r angen.

**Cymorth Cymhelliant i Gyflogwyr (CCG)**

8.11 Mae'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr yn rhoi cymorth ariannol i gyflogwyr sy'n recriwtio prentis ag anabledd. Fe'i cynlluniwyd i annog recriwtio cynhwysol ac er mwyn helpu cyflogwyr i drefnu cymorth priodol yn y gweithle.

8.12 Drwy'r cynllun hwn, mae cyflogwyr yn gymwys i gael taliad cymhelliant o £2,000, y bydd Medr yn ei dalu dri mis ar ôl dyddiad dechrau cyflogaeth y prentis. Bydd y darparydd perthnasol yn derbyn taliad o £100 i gefnogi costau gweinyddu'r cynllun.

8.13 Cymhwystra:

- Rhaid bod y dysgwr wedi bod yn gyflogedig am o leiaf 12 wythnos, a chael cytundeb prentisiaeth wedi'i lofnodi.
- Rhaid i gyflogwyr ymrwymo i gyflogi'r prentis am yr holl gyfnod sy'n ofynnol i gwblhau'r Fframwaith Prentisiaeth, fel y pennwyd yn yr asesiad cychwynnol.
- Gall anabledd y dysgwr fod wedi'i hunanddatgan, a rhaid ei nodi wrth recriwtio, a rhaid i'r cyflogwr fod yn ymwybodol o'r anabledd cyn penderfynu recriwtio.
- Nid yw prentisiaid sy'n cael eu cyflogi drwy'r model Rhannu Prentisiaeth na Phrentisiaeth â Chymorth yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn.
- Gall prentis ddenu mwy nag un taliad cymhelliant os yw'n symud i gyflogwr gwahanol tra bo'r cynllun ar waith. Bydd hyn yn cael ei fonitro i sicrhau nad yw'r cynllun yn cael ei gamddefnyddio neu nad yw prentisiaid yn cael eu hannog i symud rhwng cyflogwyr er mwyn cynhyrchu taliadau cymhelliant ychwanegol yn unig.
- Os yw'r cyflogwr yn awdurdod lleol a bod y prentis yn cael ei gyflogi gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, gellir sefydlu'r contract a/neu'r cytundeb â'r awdurdod lleol a fydd yn gyfrifol am dderbyn a dosbarthu'r taliad CCG.

8.14 Gall y cymhelliant hwn newid dros gyfnod y Dyfarniad Grant.

# 9. Gofynion data a systemau

## Gofynion diogelwch gwybodaeth

9.1 Rhaid i ddarparwyr ddal a chynnal sicrwydd dangosadwy yn erbyn safon diogelwch gwybodaeth gydnabyddedig sy'n briodol i natur, graddfa a sensitifrwydd y gweithgarwch a gyllidir a'r data a brosesir am ddysgwyr. Fel isafswm, rhaid i ddarparwyr gyflwyno tystiolaeth i Medr o ardystiad, achrediad, neu asesiad wedi'i wirio'n annibynnol yn erbyn safon, fframwaith neu gynllun diogelwch gwybodaeth cydnabyddedig fel ISO/IEC 27001, Hanfodion Seiber a Mwy, Safon Llywodraethu IASME, y Fframwaith Asesu Seiber neu safonau, fframweithiau neu gynlluniau diogelwch cyfatebol.

9.2 Rhaid i achrediad neu sicrwydd fod yn gyfredol, yn berthnasol i'r gweithgarwch a gyllidir, ac wedi'i ategu gan dystiolaeth archwiliadwy o gydymffurfiaeth. Mae'n ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod tystiolaeth o'r fath ar gael i Medr ar gais, a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodir ar unwaith er mwyn rhoi sicrwydd parhaus o'u systemau diogelwch.

## Data personol

9.3 Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â holl ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol a chyfredol y DU, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 GDPR y DU, a Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025, ynghyd ag unrhyw reoliadau neu ganllawiau statudol cysylltiedig.

9.4 Mae darparwyr yn gyfrifol am sicrhau bod data personol yn cael eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw, a'u bod wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod, colled, dinistr neu ddifrod drwy weithredu mesurau technegol a threfniadol priodol. Mae hyn yn cynnwys cynnal trefniadau llywodraethu gwybodaeth cadarn, sicrhau cywirdeb a lleihau data, a chefnogi hawliau testunau data.

9.5 Rhaid gallu dangos cydymffurfiaeth drwy dystiolaeth archwiliadwy yn unol â'r egwyddor atebolrwydd. Rhaid i ddarparwyr gymryd camau unioni prydlon a chymesur mewn ymateb i unrhyw risgiau, digwyddiadau neu dor diogelwch data personol a nodir, gan gynnwys hysbysu awdurdodau perthnasol, gan gynnwys Medr, ac unigolion yr effeithir arnynt lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

## Cyflwyno Data i LLWR

9.6 Mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno data dysgwyr a rhaglenni i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) gan gydymffurfio'n llawn â Chynllun Cyflwyno LLWR, Egwyddorion Cyflwyno Data, a Llawlyfr LLWR. Rhaid i gyflwyniadau lynu'n gaeth wrth y strwythurau data rhagnodedig, y rheolau dilysu, a'r safonau codio data a nodir yng Nghynllun a LLWR er mwyn sicrhau cysondeb a chyfanrwydd data.

9.7 Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod yr holl ddata a gyflwynir yn gywir, yn gyflawn ac yn amserol, ac maent yn gyfrifol am sefydlu a chynnal lefel ddigonol o adnoddau â sgiliau priodol, systemau a rheolaethau mewnol er mwyn helpu i gasglu, dilysu a chyflwyno data y effeithiol.

9.8 Gellir cael mynediad at Gynllun Cyflwyno LLWR, Egwyddorion Cyflwyno Data, a Llawlyfr LLWR yn: Data a dadansoddi - Medr.

# Atodiad 1 - Pwysoliadau Fframwaith Sector Prentisiaethau yn eu trefn

| Fframwaith Sector | Pwysoliad |
|---|---|
| Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Gofal Anifeiliaid | 1.8 |
| Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig | 1.94 |
| Peirianneg | 1.8 |
| Bwyd a Diod | 1.8 |
| Gweithgynhyrchu | 1.8 |
| Trafnidiaeth, Moduro a Logisteg | 1.8 |
| Creadigol, Dylunio a'r Cyfryngau | 1.45 |
| Arlwyo a Lletygarwch | 1.17 |
| Gwallt a Harddwch | 1.26 |
| Gwasanaethau Eiddo | 1.26 |
| Digidol | 1.25 |
| Gwyddoniaeth ac Ynni | 1.19 |
| Chwaraeon a Hamdden | 1.19 |
| Y Gyfraith, Cyllid a Chyfrifyddu | 1.16 |
| Rheoli, Busnes a Manwerthu | 1.16 |
| Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar | 1.08 |
| Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant | 1.08 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelu | 1.08 |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**